


D. G. LLOYD HUGHES yn dwyn i gof
Ysgol Ramadeg Pencader

Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg medrai'r rhan fwyaf o drefydd poblog ymffrostio yn eu hysgolion gramadeg preifat, ond yr oeddent yn brin iawn yn yr ardaloedd gwledig. Wedi sefydlu Coleg Aberystwyth yn 1872 darparwyd cwrs arbennig ar yr un llinellau â'r un a gyfranid ganddynt mewn ymdrech i wneud i fyny am y golled. Un a fyddai'n gwybod am y cwrs oedd John David Evans, Llynddwr Isaf, Pencader, Sir Gaerfyrddin, a gychwynnodd yn fyfyrwr yn y Coleg yn 1876. Oherwydd afiechyd fe'i gorfodwyd i ymadael wedi llai na blwyddyn yn y lle.

Marw Gwilym Marles

Roedd Evans, wrth gwrs, wedi cael blas ar addysg ysgol ramadeg ei hun yn yr un a gynhaliwyd yn Llandysul, bedair milltir o Bencader, gan Gwilym Marles. Bu wedyn mewn ysgol yng Nghaerdydd, cyn mynd i Aberystwyth. Wedi cael y cyfle i adfer ei iechyd cafodd gyfnod o brofiad fel athro yn Lloegr ac, yn ystod ei absenoldeb, bu dau ddiwyddiad pwysig a arweiniodd at newid mawr yng nghwrs ei fywyd. Yn y flwyddyn 1879 bu farw Gwilym Marles ac, oherwydd na chydiodd neb arall yn ei ysgol, gwelodd John Evans ei gyfle i agor un tebyg iddi ym Mhencader. Trwy gyd-ddigwyddiad roedd ym mhentref Pencader adeilad addas - Ysgoldy Bach, gerllaw Hen Gapel yr Annibynwyr - a oedd wedi bod yn rhydd ers mis Ionawr, 1878. Yno y cynhelid cyfres hir o ysgolion dyddiol i blant, yn cynnwys John Evans ei hun, o dan nawdd yr Annibynwyr, cyfres a ddiweddodd oherwydd agor ysgol gynradd y pentref mewn adeilad newydd gan y Bwrdd Ysgol.

Mae dogfennau Cyfrifiad 1881 yn dangos J. D. Evans yn ŵr dibriod, 27 mlwydd oed, yn byw yn ei hen gartref hefo'i fam weddw, ac yn disgrifio'i hun fel *Grammar School Master*. Er nad oedd yn dweud ymha le yn union yr oedd wrthi y



Yr Ysgoldy Bach, wrth dalcen chwith yr Hen Gapel, Pencader.

mae'n rhesymol i gredu mai Ysgoldy Bach, Pencader oedd y lle hwnnw, ac mai rhwng haf 1879 a gwanwyn 1881 y dechreuodd ar ei yrfa newydd yno.

Does dim gwybodaeth fanwl am hanes cynnar yr ysgol newydd wedi goroesi ond y mae'n glir o hanes ei yrfa, yn rhifyn 27 Hydref 1927 o'r cylchgrawn *Y Tyst*, nad oedd John Evans yn fodlon ar ei gymwysterau addysgiadol a dychwelodd i Goleg Aberystwyth ym mis Medi 1881, a bu yno hyd ddiwedd tymor yr haf 1883. Credai llawer y meddai'r gallu i ennill gradd go dda ond y gorau a fedrai wneud yn yr arholiadau oedd pasio'r *London Matriculation (First Division)*. Digwyddai fod yn un o'r bobl hynny sy'n methu ymdopi â phwysau arholiadau.

Tra yn y coleg gadawodd ei ysgol yng ngofal un D. C. Jones o Geinewydd, ac yn ystod ei absenoldeb un o'r disgyblion oedd D. Stanley Jones, brodor o'r ardal i'wng Llanarth a Thalgarreg yng Ngheredigion.

Rhydd ei hanes enghraifft o'r math o ddisgybl a ddenid i'r ysgol ramadeg yn y cyfnod hwnnw. Wedi ei eni yn 1860 bu mewn ysgol yn Nhalgarreg o dan ofal John Thomas, ŵyr i Thomas Phillips o academi enwog Neuadd Lwyd, cyn gadael yn ddeuddeg mlwydd oed i fynd yn brentis teiliwr. Pan ddaeth hynny i ben bu'n dilyn ei grefft mewn gwahanol fannau cyn ymgartrefu yng Nghwm Aberdâr, lle y dechreuodd bregethu, ennill sylw, a chael ei gynghori yn 1882 i fynd i Ysgol Ramadeg Pencader ac at, fel y digwyddodd pethau, le prifathro arall â chysylltiadau teuluol efo Thomas Phillips. Symudodd o Bencader i ysgol yng Ngheinewydd - y mae'n debygol cyn i John Evans ddychwelyd o'r Coleg - a bu wedyn yng Ngholeg Cynulleidfaol Bryste a Choleg Caerdydd, cyn mynd i'r weinidogaeth efo'r Annibynwyr yn Y Porth (Rhondda), Llandisilio (Penfro) a Salem, Caernarfon, ymha le yr olynodd yr enwog Barchg. E. Herber Evans.

Wedi gadael y coleg, ailafaelodd J. D. Evans yn ei ysgol ar ddiwedd haf 1883. Yng ngeiriau rhifyn 27 Hydref 1927, o'r *Tyst*, wrth gofnodi ei farwolaeth, yr oedd ganddo bob cymhwyster ar gyfer y gwaith - 'personoliaeth hardd, dull effeithiol o gyfrannu gwybodaeth a dawn nodedig i gadw disgyblaeth'. Cynyddodd enwogrwydd yr ysgol ac yn y flwyddyn 1889, codwyd dau adeilad ar yr ochr chwith i'r ffordd allan o Bencader am Gaerfyrddin. Ysgoldy oedd y naill a'r llall, tŷ helaeth Tremle, nid nepell oddi yno, i fod yn gartref i'r prifathro a'i fam ac hefyd i ddarparu llety ar gyfer disgyblion. Bu'r Parchg. R. Puw Jones, gweinidog yr Hen Gapel, yn gymorth mawr iddo yn llunio prospectws dymunol ar gyfer denu myfyrwyr, gan ddefnyddio ei gysylltiadau eang i rwydo 26 o ŵyr blaenllaw'r genedl, yn cynnwys rhai o hoelion wyth ei enwad, fel y Parchn. John Thomas, Lerpwl; E. Pan Jones, Mostyn; Michael D. Jones, Y Bala; E. Herber Evans, Caernarfon, ac H. Elvet Lewis, (Elfed) yn noddwyr.



Ysgol Ramadeg, Pencader (o Almanac yr Hen Gapel, Pencader 1980).

(Parhad ar dudalen 5)